❖ Duw yn y Byd

Dduw, y dieithryn,
helpa ni i'th groesawu
i'n gwlad, i'n bro, i'n cartref, i'n heglwys.
Dduw, yr anhysbys,
helpa ni i'th adnabod
ym mywydau ein cyd-ddynion
y cyffyrddwn â hwy bob dydd.
Dduw, y diymadferth,
helpa ni i'th weld
yn y plentyn bach ym mreichiau'i fam.
Dduw, hollbresennol,
helpa ni i'th ganfod ynghanol dy fyd –
mewn cariad, mewn cyd-ddyn, mewn celfyddyd –
ac o'th ganfod, dy garu a'th wasanaethu.
Dduw, ymgnawdoledig,
o'th adnabod yn dy Fab Iesu Grist,
helpa ni i'th ganfod a'th adnabod
ym mhob man.

Llawlyfr Gweddi CWM